# Cylchlythyr Dysgu ac Addysgu
# Learning and Teaching Newsletter

## Mai / May 2022



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

THE TIMES THE SUNDAY TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE 2020 WELSH UNIVERSITY OF THE YEAR

THE TIMES THE SUNDAY TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE 2019 UNIVERSITY OF THE YEAR FOR TEACHING QUALITY

# Penawdau I Headlines

**Rhaglen Siaradwyr Gwadd yr UDDA: Cynorthwyo Marcwyr i Ganfod Twyllo ar Gontract**

Ar 20 Mai 2022 12:30-13:30, bydd Dr Mary Davies a'i chydweithwyr yn cynnal gweithdy ar eu hadnodd rhyngweithiol Contract Cheating Detection for Markers, sy'n gweithio ar sail rhestr wirio o 'faneri coch'.

Am fwy o wybodaeth ac archebwch eich lle ar-lein.

**LTEU External Speaker Event: Contract Cheating Detection for Markers**

On 20 May 2022 12:30-13:30, Dr Mary Davies and colleagues will be running a workshop on their interactive red flag checklist resource Contract Cheating Detection for Markers.

Further information and book your place online.

# Penawdau I Headlines

## Adrian Mironas

Gyda thristwch mawr rydym yn adrodd am golli Dr Adrian Mironas yn ddim ond 31 oed. Roedd Adrian ar ein carfan arloesol gyntaf o AUMA yn 2016, un o ddau yn unig o IBERS. Roedd Adrian yn ganolog i ni wrth i ni roi'r rhaglen ar waith, bod yn gynrychiolydd myfyrwyr ar gyfer ei adran a bwydo drwy ei syniadau ar ein rhaglen dybiedig o'n grŵp ffocws cychwynnol. Cyflawnodd Adrian AFHEA yn llwyddiannus ac roedd ymhlith ein grŵp cyntaf o 12 o raddedigion AUMA ym mis Mai 2017. Roedd bob amser yn AUMAer brwdfrydig ac ymgysylltiol, ac anogodd lawer mwy o fyfyrwyr PhD IBERS i wneud cais am y rhaglen yn y blynyddoedd wedyn, i'r pwynt lle roedd chwarter o'n cyfranogwyr dilynol wedi dod o'r adran honno. Dim ond newydd ddechrau ar ei yrfa ôl-PhD gyda Thechnoleg Iechyd Cymru yr oedd, gan helpu i wneud y cysylltiad rhwng ymchwil flaengar a llunio polisi. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â theulu Adrian a’r llu o ffrindiau a wnaeth yn Aberystwyth.

## Adrian Mironas

It is with great sadness that we report the loss of Dr Adrian Mironas at just 31. Adrian was on our first pioneering cohort of TPAU in 2016, one of only two from IBERS. Adrian was pivotal in us getting the programme underway, being a student rep for his department and feeding through his ideas on our putative programme from our initial focus group. Adrian successfully achieved AFHEA and was amongst our first group of 12 TPAU graduates in May 2017. He was always an enthusiastic and engaged TPAUer, and encouraged many more IBERS PhD students to apply for the programme in the years afterwards, to the point where a quarter of our subsequent participants have come from that department. He was only just starting out on his post-PhD career with Health Technology Wales, helping to make the link between cutting-edge research and policy making. We extend our sincere condolences to Adrian’s family and the very many friends he made in Aberystwyth.



# Penawdau I Headlines

## Galwad am Gynigion: 10fed Cynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol

Gwahoddir staff, cynorthwywyr dysgu uwchraddedig a myfyrwyr i gyflwyno cynigion ar gyfer 10fed Cynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol Prifysgol Aberystwyth a gynhelir rhwng 12 - 14 Medi 2022.

Gallwch gyflwyno a gweld yr alwad am gynigion ar-lein.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, e-bostiwch udda@aber.ac.uk.

---

## Call for Proposals: The 10th Annual Learning and Teaching Conference

Staff, postgraduate teaching assistants, and students are invited to submit proposals for the 10th Annual Aberystwyth University Learning and Teaching Conference held 12 - 14 September 2022.

Submit and view the call for proposals online.

If you have any queries, please email lteu@aber.ac.uk.

# Penawdau I Headlines

## AUMA 2022-3

Byddwn yn dechrau recriwtio ar gyfer carfan nesaf y rhaglen Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth y mis hwn. Gall unrhyw ymchwilydd ôl-raddedig sydd â diddordeb sy'n addysgu wneud cais am le ar y rhaglen hyd at 24 Mehefin.

Am fwy o wybodaeth.

## TPAU 2022-3 Opens this Month

We will start recruiting for the next cohort of the Teaching for Postgraduates at Aberystwyth University programme this month. Any interested PGRs who are teaching can apply for a place on the programme up until 24th June.

Further information.






# Penawdau I Headlines

## Gwobr Cwrs Eithriadol 2021-22

Mae Dr Laura Stephenson, o Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, wedi ennill Gwobr Cwrs Eithriadol am fodiwl TFM0120: Gender and Media Production.

Yn ogystal, cafodd y modiwlau canlynol statws Canmoliaeth Uchel:

- Dr Andrew Filmer o Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu am fodiwl TP33420: Performance and Architecture
- Dr Maire Gorman o Ysgol y Graddedigion a Ffisegam fodiwl PGM4310: Quantitative Data Collection and Analysis
- Claire Ward o Dysgu Gydol Oes am fodiwl XA01605: Natural History Illustration: Seed Heads

## Exemplary Course Award 2021-22

Dr Laura Stephenson, from the Department of Theatre, Film and Television Studies, has been awarded the Exemplary Course Award for the module TFM0120: Gender and Media Production.

In addition to the winner, the following modules achieved Highly Commended:

- Dr Andrew Filmer from the Department of Theatre, Film and Television Studies for the module TP33420: Performance and Architecture
- Dr Maire Gorman from the Graduate School and Physics for the module PGM4310: Quantitative Data Collection and Analysis
- Claire Ward from Lifelong Learning for the module XA01605: Natural History Illustration: Seed Heads

# Penawdau I Headlines

## Rob Nash: Deunyddiau Siaradwr Gwadd ar gael


Ddydd Gwener 11 Mawrth, croesawodd yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu Dr Rob Nash, Darllenydd mewn Seicoleg o Brifysgol Aston. Mae Rob yn arbenigwr mewn adborth a chynhaliodd weithdy sy'n edrych yn benodol ar ffyrdd y gallwn wella a datblygu ymgysylltiad ag adborth.

Am fwy o wybodaeth.

## Rob Nash: External Speaker Materials Available

On Friday 11 March, the Learning and Teaching Enhancement Unit hosted Dr Rob Nash, a Reader in Psychology from Aston University. Rob is an expert in feedback and ran a workshop looking explicitly at ways in which we can enhance and develop feedback engagement.

Further information.





# Penawdau I Headlines

## Nodweddion Newydd yn Turnitin: Templed Aseiniad

Mae Turnitin, ein meddalwedd e-gyflwyno, wedi cyflwyno rhywfaint o nodweddion newydd o ran templedi aseiniadau.

Erbyn hyn, mae’n bosibl eithrio templedi rhag ymddangos yn y Sgôr Tebygrwydd.

Am fwy o wybodaeth.

---

## New Functionality in Turnitin: Assignment Template

Turnitin, our e-submission software, has introduced some new functionality regarding assignment templates.

It’s now possible to exclude templates from showing up in the Similarity Score.

Further information.

# Penawdau I Headlines

## PRES 2022

Bydd Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedig yr HEA yn rhedeg drwy gydol mis Mai. Os ydych yn Ymchwilydd Ôl-raddedig sy'n addysgu, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech gwblhau'r arolwg neu os ydych yn oruchwyliwr ar gyfer Ymchwilwyr Ôl-raddedig, byddwn yn ddiolchgar pe gallech atgoffa'r rhai a oruchwylir gennych am yr arolwg. Mae dolenni unigol wedi'u hanfon at bob Ymchwilwyr Ôl-raddedig.

## PRES 2022

The HEA Postgraduate Research Experience Survey will be running for the duration of May. If you are a PGR who is teaching we would be very grateful if you could complete the survey or if your are a supervisor for PGRs, we would be grateful if you could remind your supervisees about the survey. Individual links have been sent to all PGRs.

Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-raddedigion

POSTGRADUATE RESEARCH EXPERIENCE SURVEY

# Penawdau I Headlines

## Diweddariad Vevox: Mawrth 2022

Yn gyntaf, ar gyfer ymarferwyr dysgu o bell a'r rhai sydd am i fyfyrwyr ymgymryd â phleidleisio wrth eu pwysau, mae cwisiau wrth eich pwysau yn cael eu cyflwyno i'r offer arolwg.

Mae'r byrddau Holi ac Ateb yn dal i gael eu tanddefnyddio rywfaint yma yn PA, ond bydd opsiwn i dagio cwestiynau a sylwadau. Bydd yn ddefnyddiol i'r rhai ohonoch sy'n cyd-gyflwyno cyflwyniad ac sydd am glustnodi cwestiynau penodol i gyflwynydd.

Am fwy o wybodaeth.

## Vevox Update: March 2022

Firstly, for distance learning practitioners and those who want students to undertake self-paced polling, there's the introduction of self-paced quizzes to the survey tool.

The Q and A boards are still underused a little here at AU, but there will be the option to tag questions and comments. Will be useful for those of you who are co-delivering a presentation and want to allocate specific questions to a presenter.

Further information.

# Penawdau I Headlines

## Arholiadau Mai 2022- Profion Blackboard

A allech roi gwybod i ni a ydych yn bwriadu cynnal Prawf Blackboard gyda'ch myfyrwyr fel math ar asesiad yn ystod cyfnod arholiadau Mai 2022.

Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn cysylltu â ni pan fydd eich prawf yn barod fel y gallwn wirio'r gosodiadau.

Canllawiau Profion Blackboard ar gyfer Arholiadau o Bell.

## May 2022 Exams - Blackboard Tests

Please could you let us know if you are planning to run a Blackboard Test with your students as a form of assessment during the May 2022 exam period.

We strongly recommend that you contact us when your test is ready so that we can check the settings.

Blackboard Tests for Remote Exams Guide.
Information to help you set up your online exams.


# Penawdau I Headlines

## Crynodeb Wythnosol o Adnoddau

Mae'r Crynodeb Wythnosol o Adnoddau yn gyfres o bostiadau ar y blog UDDA sy'n casglu adnoddau i helpu staff i addysgu'n effeithiol. Wedi'u curadu gan Gydlynydd TUAAU, mae adnoddau'n cynnwys gweminarau, podlediadau, pecynnau cymorth ar-lein, cyhoeddiadau a mwy. Mae'r pynciau'n cynnwys dysgu gweithredol, addysgu ar-lein/cyfunol, hygyrchedd/cynhwysiant, dylunio dysgu effeithiol yn seiliedig ar wyddoniaeth wybyddol, a mwy. Anfonwch ddiweddariadau i'ch mewnflwch trwy danysgrifio i flog UDDA.

## Weekly Resource Roundup

The Weekly Resource Roundup is a series of posts on the LTEU blog that collect resources to help staff teach effectively. Curated by the PGCTHE Coordinator, resources include webinars, podcasts, online toolkits, publications and more. Topics include active learning, online/blended teaching, accessibility/inclusion, effective learning design based on cognitive science, and more. Get updates sent to your inbox by subscribing to the LTEU blog.






# Penawdau I Headlines

## TUAAU

Y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau am Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAAU) yw 1 Tachwedd 2022 ar gyfer dechrau Ionawr 2023. Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i gefnogi staff sy'n newydd i addysgu i ddatblygu eu harfer fel addysgwyr proffesiynol. Gweler tudalen we TUAAU am fanylion a llawlyfr y gellir ei lawrlwytho a chysylltwch â thîm y cwrs TUAAU os oes gennych gwestiynau pellach.

## PGCTHE

The next application deadline for the Postgraduate Certificate in Teaching in Higher Education (PGCTHE) is 1st November 2022 for a January 2023 start. The scheme is designed to support staff who are new to teaching in developing their practice as professional educators. Please see the PGCTHE web page for details and a downloadable handbook and contact the PGCTHE course team if you have further questions.

# Darpariaeth hyfforddiant
# Training Provision

- 17-05-2022 'Basic Mental Health Awareness'
- 20-05-2022 'External Speakers: Contract cheating red flag checklist'
- 23-05-2022 FFORWM GWEINYDDOL
- 14-06-2022 'LinkedIn Learning: Content and Curation (Part 1)'
- 21-06-2022 'LinkedIn Learning: Learning in Discussion (Part 2)'

---

- 17-05-2022 Basic Mental Health Awareness
- 20-05-2022 External Speakers: Contract cheating red flag checklist
- 23-05-2022 ADMIN FORUM
- 14-06-2022 LinkedIn Learning: Content and Curation (Part 1)
- 21-06-2022 LinkedIn Learning: Learning in Discussion (Part 2)

**Archebwch yma/Book here**



# Adnoddau a gyhoeddwyd yn ddiweddar
# Recently Published Resources

- Deunyddiau ar-lein o weithdai UDDA – Oeddech chi'n gwybod y gallwch chi lawrlwytho'r taflenni a'r deunyddiau atodol ar gyfer rhai o'n sesiynau hyfforddi? Gweler yr adran Adnoddau Hyfforddi ar dudalennau gwe LTEU.

- Online materials from LTEU workshops – Did you know that you can download the handouts and supplementary materials for some of our training sessions? Please see the Training Resources section of the LTEU web pages.



**Ymholiadau technegol –**
cysylltwch ag eddysgu@aber.ac.uk

**I holi ynglŷn â hyfforddiant a chefnogaeth addysgu –**
cysylltwch ag udda@aber.ac.uk

---

**Any technical queries –**
contact elearning@aber.ac.uk

**To enquire about the training and teaching support –**
contact lteu@aber.ac.uk

**@DdysguE**